Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# YG Cynwyl Elfed
# Stryd Y Meddyg
# Cynwyl Elfed
# Caerfyrddin
# SA33 6TR

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol wledig yw Cynwyl Elfed sydd wedi ei lleoli yng nghanol pentref rhyw bum milltir i'r gogledd o dref Caerfyrddin ac mae'n gwasanaethu'r ardal o'i chwmpas.  Ar hyn o bryd, mae 59 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir ar ddechrau'r tymor y byddant yn cyrraedd eu pedwerydd pen-blwydd.  Mae nifer y disgyblion wedi codi ers yr arolygiad ddiwethaf.  Cymraeg yw iaith feunyddiol y gweithgareddau a'r prif gyfrwng addysgu yn yr Ysgol.  Tri deg un y cant o'r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf.  Yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 1, mae'r ysgol yn addysgu holl bynciau'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn cyflwyno'r Saesneg yn gynyddol drwy flynyddoedd cyfnod allweddol 2.

Mae canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o 13% yn 2007 i 1.6% yn 2011.  Mae 15% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.  Mae gan 10% o ddisgyblion cyfnod allweddol 2, ddatganiad addysgol.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers mis Medi 2006.  Ers mis Ionawr 2011, mae hefyd wedi ymgymryd â dyletswyddau pennaeth dros dro ysgol gyfagos.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed yw £3,916 sy'n cymharu ag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin.  Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 40fed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol dros ei gyfnod yn yr ysgol;
- yr holl ddisgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda iawn;
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr; a
- chydweithrediad clos ac effeithiol rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned leol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr arweinyddiaeth yn gadarn;
- yr arweinwyr yn rhoi pwyslais a ffocws clir ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth;
- gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol; a bod
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 wella'r addysgu ar draws yr ysgol;

A2 sicrhau cysondeb o ran y defnydd o asesu ar gyfer dysgu; a

A3 gwneud defnydd ehangach o'r ardal allanol fel adnodd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol a fydd yn adrodd ei ganfyddiadau i Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Tros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion yn saith mlwydd oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, wedi bod yn dda. Mae'r canlyniadau yn cymharu'n gyson dda gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg mewn gwyddoniaeth ac mewn dwy allan o'r tair blynedd mewn Cymraeg a mathemateg. Yn gyffredinol mae'r canlyniadau ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3), yn dda mewn Cymraeg a mathemateg, ond yn is na disgyblion yn ysgolion y teulu mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn fwy anwastad. Mae'r dangosydd pwnc craidd (canlyniadau Cymraeg neu Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg wedi eu cyfuno) wedi amrywio o'r 50% uchaf o ysgolion i'r 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf. Mae canlyniadau'r disgyblion yn 11 mlwydd oed ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd Cenedlaethol ac ysgolion y teulu. Nid yw'r disgyblion wedi gwneud cystal mewn Cymraeg ac mae eu canlyniadau mewn Saesneg wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol yn ystod ei amser yn yr ysgol. Mae maint y carfannau yn fach a'r gymhareb bechgyn/merched yn amrywiol. O'r herwydd nid yw'n hawdd adnabod tueddiadau penodol wrth gymharu perfformiad bechgyn a merched. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol yn unol â'u gallu, a'u cyrhaeddiad blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwd i drafodaeth gan ddefnyddio brawddegau cyflawn. Mae ganddynt afael dda ar eirfa a thermau ac fe wnânt gynnydd da mewn medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynnig sylwadau yn ddigymell ar lafar. Mae ansawdd y mynegiant llafar yn lân. Gall llawer o ddisgyblion ddarllen ar goedd yn ystyrlon a chyda goslef briodol. Mae'r darllenwyr mwy abl yn trafod cynnwys ac arddull a mynegiant awduron yn ddeallus. Hefyd mynegant hoffter am awduron penodol gan gynnig rhesymau dilys. Mae disgyblion heb afael flaenorol ar y Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni gwaith o ansawdd da iawn.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen i fwyta'n iach a manteision gwneud hynny. Maent yn tyfu planhigion a llysiau yng ngardd yr ysgol ac yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadwraeth a'u cyfrifoldeb i ofalu ar ôl eu hamgylchedd.

Mae ymddygiad y plant yn dda iawn ac maent yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r berthynas dda sydd rhyngddynt a'i gilydd, ac oedolion, yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd eu gwaith. Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gael cymorth os nad ydynt yn hapus.

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ysgol yn rheolaidd ac ymateba'r disgyblion yn dda i gyfleoedd i wneud penderfyniadau. Gwna hyn wahaniaeth positif i ansawdd bywyd yn yr ysgol. Tros y tair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd presenoldeb wedi bod dros 95% ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag mae'r gyfradd presenoldeb wedi disgyn eleni oherwydd salwch a wnaeth effeithio ar ganran arwyddocaol o ddisgyblion. Mae prydlondeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod ag anghenion y disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer ymestyn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol gan gynnwys gwneud defnydd mwy o'r ardal allanol a'r gyfer profiadau dysgu pwrpasol. Mae ystod o ymwelwyr, a'r ymweliadau a drefnir ar gyfer y disgyblion, yn cefnogi ac yn cyfoethogi eu profiadau yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae'r cynllunio manwl yn datblygu dilyniant a datblygiad da mewn medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y Cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn dda ac yn llwyddo i osod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion. Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo adnabyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol ac am Gymru fel gwlad a chenedl. Mae'r staff i gyd yn cynnig modelau iaith sy'n hyrwyddo datblygiad llythrennedd yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg datblygiad cynaliadwy yn briodol. Sicrha'r ysgol fod y disgyblion yn derbyn cyfleoedd da i ymestyn eu gwybodaeth o faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a meysydd dysgu priodol. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau addas yn effeithiol er mwyn

hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion. Mae perthynas rhwng athrawon, cymorthyddion dysgu a disgyblion yn ardderchog. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn cyflwyno cwricwlwm sy'n seiliedig ar brofiadau plant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o'r gwersi a arsylwyd, nid oedd y disgwyliadau'n ddigon uchel ac o ganlyniad roedd lleiafrif o'r disgyblion mwy abl yn tangyflawni.

Er bod enghreifftiau o wahaniaethu effeithiol iawn yn y mwyafrif o'r gwersi, ar adegau, nid yw strategaethau addysgu neu weithgareddau dysgu yn ystyried yr ystod oedran a gallu yn ddigonol.

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer marcio a darparu adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion yn darparu cymorth digonol i alluogi disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Gosodir targedau gwella ar gyfer disgyblion unigol sy'n benodol i alluogi'r disgyblion i fesur eu cynnydd dros amser. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar waith yn gyson ym mhob dosbarth. Mae trefn yr ysgol ar gyfer dod i farn ar lefelau cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn dda ac mae'r trefniadau ar gyfer cymedroli'r asesiad athro gydag ysgolion cyfagos yn effeithiol.

Mae ansawdd yr adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Cyflawnir asesiadau risg addas ar gyfer agweddau perthnasol o waith yr ysgol ac fe ymatebir ar y diwrnod cyntaf i unrhyw absenoldeb ble nad yw'r ysgol yn ymwybodol o'r rheswm. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda o fewn eu cymuned leol drwy weithgareddau megis gwasanaethau, cefnogi eisteddfodau ac ymweliadau.

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant priodol a gweithdrefnau addas ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy drafodaethau staff. Cynhelir cysylltiad agos â rhieni wrth lunio a gwerthuso targedau ar gyfer gwella yn y cynlluniau addysgol unigol ac fe rennir arweiniad â hwy ar sut y gallent gefnogi eu plentyn. Mae'r cymorthyddion dysgu yn darparu cefnogaeth effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion ychwanegol y disgyblion hyn yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hybu ethos gynhwysol ac mae ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a hawl gyfartal i'r cwricwlwm. Caiff cefndir disgyblion ei werthfawrogi ac mae gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol, megis bwlio, yn effeithiol iawn. Trwy gydweithio ag aelodau o'r gymuned leol a gwahanol brofiadau addysgol y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol, mae gan y plant ddealltwriaeth glir o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.

Gwneir defnydd effeithiol o ofod mewnol yr ysgol ac mae'r ardaloedd dysgu yn symbylol a lliwgar. Rhoddir bri ar waith disgyblion drwy arddangosfeydd priodol sy'n dathlu llwyddiannau a chynnydd.

Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae gan yr ysgol gyflenwad da o gyfarpar technoleg gwybodaeth sy'n ei ddefnyddio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau yn y maes. Fodd bynnag, nid yw'r ardal allanol yn cael ei defnyddio ar bob adeg briodol i'w llawn botensial i ehangu profiadau dysgu'r disgyblion ieuengaf.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae nodau a gwerthoedd yr ysgol yn briodol ac yn cael eu hyrwyddo gan yr holl staff. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dda a chyfeiriad clir ar gyfer gwelliant. Trwy ei arweinyddiaeth effeithiol, mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn ymateb yn briodol i'w rolau arweinyddol. Mae'r rolau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac mae gan yr ysgol system effeithiol i reoli perfformiad. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn ymateb yn dda i anghenion gwella ysgol gyfan, yn ogystal ag yn darparu'n briodol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff.

Mae'r corff llywodraethol yn datblygu dealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol. Maent yn cefnogi'r ysgol yn dda trwy ymweliadau monitro gyda ffocws penodol. Mae ei rôl fel cyfaill beirniadol yn datblygu'n briodol.

Mae mentrau ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n dda. Mae blaenoriaeth uchel i ddatblygu lles disgyblion a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i fodloni egwyddorion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Iaith Pawb, trwy ddatblygu medrau dwyieithrwydd y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn un ar ddeg oed mae gan y disgyblion medrau dwyieithrwydd da. Mae'r ysgol hefyd yn ymateb yn effeithiol i agweddau o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros dro am arweinyddiaeth ysgol fechan gyfagos ac mae'r staff yn y ddwy ysgol yn cydweithio'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu'r ysgol yn datblygu'n dda. Mae'r staff yn defnyddio ystod gynhwysfawr o dystiolaeth fel rhan o'r broses. Mae monitro gwaith yn y dosbarthiadau ac ymglymiad y disgyblion, rhieni a'r gymuned mewn hunanarfarnu wedi galluogi'r ysgol i wneud asesiad priodol o'i chryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Gwneir defnydd da o ddadansoddi data asesu athrawon i farnu pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o'i chymharu ag ysgolion tebyg o fewn y teulu, ysgolion eraill a chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn effeithiol i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella ac mae wedi dosrannu adnoddau priodol ar gyfer y broses.

Mae’r ysgol yn gweithredu fel cymuned ddysgu gref. Er enghraifft, mae athrawon ysgolion y clwstwr yn cydweithio i greu cynlluniau gwaith yn dilyn diwygio’r Cwricwlwm Cenedlaethol yn 2008. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi adnabod yr angen i godi safonau llythrennedd y disgyblion. O ganlyniad, mae’r ysgol yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill ar strategaethau priodol i wella’r ddarpariaeth. Mae diwylliant effeithiol o gydweithio o fewn yr ysgol. Hefyd, mae cydweithio strategol effeithiol, a rhannu arbenigedd ac adnoddau rhwng yr ysgol ac ysgol gyfagos sydd o dan ofal ac arweiniad pennaeth Cynwyl Elfed.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir partneriaeth gref gyda rhieni a’r gymuned leol. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella’r ddarpariaeth addysgol. Mae’r ysgol yn rhannu ei hadnoddau, gan gynnwys defnydd o’r ardal ddysgu allanol, gyda chylch meithrin y pentref. Mae hyn yn ddefnydd effeithiol o adnoddau’r ysgol ac yn paratoi plant y feithrinfa yn dda ar gyfer dechrau'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a sefydliadau cymunedol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol pan fo’r angen.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol dda gydag ysgolion y dalgylch a’r ysgolion uwchradd lleol. Mae’r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau’r disgyblion ymhellach. Yn ogystal, mae gan yr ysgol bartneriaeth briodol gyda'r ddwy ysgol uwchradd y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt yn un ar ddeg mlwydd oed. Mae’r trefniadau hyn yn effeithiol ar gyfer paratoi'r disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae ystod briodol o adnoddau dysgu ac addysgu ar gael. Mae digon o staff profiadol, gan gynnwys cymorthyddion dosbarth a chymwysterau priodol, ar gael ar gyfer nifer y disgyblion. Gwneir defnydd da o’r arian sydd ar gael o amryw o ffynonellau. Yn ddiweddar, defnyddiwyd peth o’r arian ar gyfer datblygu ymhellach yr ardal allanol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu ychwanegol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

O ystyried y defnydd da a wna'r ysgol o'i chyllid a'r cynnydd, a, chanlyniadau da ac weithiau, da iawn a gyrhaeddir gan y rhan fwyaf o'r disgyblion yn ôl eu gallu a’u potential, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Dychwelwyd 32 o holiaduron gan y rhieni ac mae’r rhan fwyaf yn fodlon iawn â’r ysgol.  Dywedant fod eu plant yn hoffi ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.  Mae pawb yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu, eu trin yn deg a bod yr ysgol yn eu datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.  Hefyd, mae pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd priodol yn yr ysgol.  Mae'r rhieni i gyd yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol ac i wneud awgrymiadau neu godi problem.  Credant fod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.  Mae pob un o’r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda gyda llawer yn meddwl ei fod yn cael ei rhedeg yn dda iawn.

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Mae’r dysgwyr yn teimlo’n gadarnhaol dros ben am eu hysgol.  Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel yno ac yn meddwl fod yr ysgol yn ymdrin â bwlio’n dda.  Mae pob un yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.  Mae pob un o’r dysgwyr yn credu bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae bron pob un yn teimlo fod plant eraill yn ymddwyn yn dda.  Mae ychydig o’r farn nad yw’r gwaith cartref yn eu cynorthwyo i wella eu gwaith yn yr ysgol.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alun Morgan | Arolygydd Cofnodol |
| Jeff Jones | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Terry Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Davies | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |